OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1142 (Cy.80)

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *31 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mawrth 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adran 9(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**1**) a phob pŵ er arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn hyn o beth, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), gyda chydsyniad y Trysorlys(**3**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** –

(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 31 Mawrth 2000.

(2) Bydd y Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Cyfalaf Cychwynnol Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**2.** Cyfalaf cychwynnol ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen fydd y swm a bennir gyferbyn â hi yng ngholofn 2 o'r Atodlen.

(**1**) 1990 p.19. Diwygiwyd adran 9 (1) gan adran 15 o'r Ddeddf Iechyd 1999 (p.8).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 9 (1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 ("Deddf 1990") i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) ("y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau").

(**3**) Gweler adran 9(8) o Ddeddf 1990. Mae'r cydsyniad y mae ei angen oddi wrth y Trysorlys wedi'i gadw yn unswydd gan Atodlen 1 i'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

30 Mawrth 2000

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Cydsyniwn,

31 Mawrth 2000

*Clive Betts*
*Bob Ainsworth*
Dau o Arglwydd Gomisiynwyr Trysorlys Ei Mawrhydi

(**4**) 1998 p. 38.

Adran 2

| **Colofn 1**<br>**YMDDIRIEDOLAETH GIG** | **Colofn 2**<br>**CYFLAF CYCHWYNNOL** |
|---|---|
| Bro Morgannwg | £94,389,000 |
| Cymunedol Caerdydd a'r Cylch | £36,319,000 |
| Sir Gaerfyrddin | £42,707,000 |
| Conwy a Sir Ddinbych | £71,828,000 |
| Gofal Iechyd Gwent | £176,884,000 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | £75,685,000 |
| Gogledd-orllewin Cymru | £82,799,000 |
| Pontypridd a Rhondda | £89,435,000 |
| Abertawe | £141,884,000 |
| Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandoche | £150,199,000 |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | £19,901,000 |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn penderfynu swm cyfalaf gwreiddiol rhai ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno, sef cyfalaf gwreiddiol y darperir ar ei gyfer yn adran 9 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990.